



Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer TAR Uwchradd Addysg Gorfforol

Llongyfarchiadau!

Rydych wedi'ch gwahodd i gyfweiliad ar gyfer lle ar y rhaglen TAR Uwchradd Addysg Gorfforol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd – rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn i gael cwrdd â chi a chael clywed am yr hyn sydd gennych i'w gynnig yn ddarpar athro Addysg Gorfforol uwchradd. Bydd y llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn y gofynnir i chi ei wneud yn ystod diwrnod y cyfweiliad a bydd hefyd yn rhoi syniad clir i chi ynglŷn â'r hyn rydym yn chwilio amdano mewn darpar athro Addysg Gorfforol. Mae wedi'i ddylunio i'ch helpu i baratoi yn unol â hynny, i chi fod â'r cyfle gorau posib i fod yn llwyddiannus.

Bydd tair rhan i'r broses gyfweled, a allai gael eu cynnal mewn trefn wahanol i'r un a nodir.

Rhan 1

Byddwch yn gwneud profion mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd tasg ysgrifennu estynedig hefyd yn ymateb i erthygl ar bwnc addysgol; drwy hyn byddwn yn gallu asesu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu. Byddwch yn derbyn yr erthygl cyn y diwrnod i chi gael paratoi, felly daliwch ar y cyfle i'w darllen yn drylwyr ac i ddeall y prif bwyntiau. Bydd y rhan hon o'r diwrnod yn para tua dwy awr.

Rhan 2:

Bydd disgwyl i chi wisgo'n ffurfiol ar gyfer elfen gyfweled y diwrnod. A wnewch chi gyrraedd yn eich dillad ar gyfer y cyfweiliad.

Bydd pob ymgeisydd yn gwneud:

- Sesiwn ymarferol 1 awr o hyd (a wnewch chi ddod â dillad chwaraeon cyffyrddus a fydd yn eich galluogi i symud mewn ffyrdd gwahanol). Yn y sesiwn ymarferol hon byddwch yn gwneud ac yn cyflawni tasg ymarferol lle y gofynnir i chi addysgu rhywbeth sy'n ymwneud â'r cwricwlwm AG. Ni fydd angen i chi baratoi dim ar gyfer hyn.

Yn yr adran hon byddwn yn chwilio am:

- dull apelgar, brwdfrydig
 - chi yn defnyddio eich sgiliau corfforol yn rhan o'ch addysgu
 - cyflwyno gwybodaeth/syniadau yn glir.
- Cyfweiliad, yn cynnwys cyflwyniad rhagarweiniol 1 funud o hyd ar pam yr hoffech fod yn athro; trafodaeth grŵp 15 munud o hyd ar y thema a amlygir isod; cyfweiliad unigol byr gydag aelod o'r panel. Gallwch ddefnyddio nodiadau yn ystod y drafodaeth grŵp.

Cwestiwn ar gyfer trafodaeth grŵp

A chithau'n athro sydd ag 'arbenigedd mewn AG' ond sy'n cydnabod y byddwch yn cefnogi cyflawni lechyd a Lles ar draws y Cwricwlwm, pa fath o sgiliau a rhinweddau rydych chi'n credu y dylem fod yn eu datblygu yn ein pobl ifanc?

Meysydd yr hoffech eu hystyried i gefnogi eich ateb:

- **Dyfodol Llwyddiannus** - y 4 diben craidd ac arweiniad drafft ar gyfer cynnwys y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles
- **Llythrennedd Corfforol** yn gysyniad creiddiol ar gyfer darpariaethau AG uchel eu safon a gweithgaredd corfforol gydol oes.

Mae caniatâd i chi fod â barn. Fodd bynnag, a wnewch chi ddefnyddio llenyddiaeth ac astudiaethau ymchwil i helpu i gefnogi'r pwyntiau rydych am eu gwneud.

Cewch gyfle i ofyn cwestiynau i ni ar hyd y dydd fel y gallwch wneud dewis gwybodus. Rydym am gael cyfle hefyd i sôn wrthych am ein prifysgol a'n rhaglen TAR Uwchradd gan ein bod yn credu bod llawer gennym i'w gynnig i athro dan hyfforddiant sy'n llawn awydd a dyhead ac rydym yn teimlo'r un mor gyffrous â chithau ynglŷn â'ch dyfodol!

Edrychwn ymlaen i gael cwrdd â chi yn y cyfweiliad a dymunwn bob hwyl i chi ar y diwrnod. A wnewch chi gyrraedd 15 munud cyn yr amser a nodwyd er mwyn i ni gael dechrau'r rhaglen yn brydlon.

Dymuniadau gorau

Fiona Diffey

Arweinydd Rhaglen TAR Uwchradd AG

Prifysgol Metropolitan Caerdydd



Met Caerdydd yw'r darparwr TAR Uwchradd mwyaf yng Nghymru ac un o'r mwyaf yn y DU. Yn ogystal, mae'n un o 4 prifysgol yn unig i gael eu hachredu ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru o fis Medi 2019: <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/ite-accreditation/providers-of-initial-teacher-education-in-wales-from-2019.html>

I gael rhagor o wybodaeth am ein cwrs, ewch i:

<http://www.cardiffmet.ac.uk/education/courses/Pages/Secondary-PGCE.aspx>

